

Gwybodaeth hanfodol

Rhif elusen gofrestrig: 1104191
Rhif Cwmni Cyfyngedig drwy Warant: 4175018

Cyfanswm Incwm £259,477

- 23% Ymddiredolaethau a sefydliadau
- 12% Ymchwil wedi'i gomisiynu
- 44% Incwm ymlaen llaw
- 21% Rhoddion a thanysgrifiadau



Cyfanswm Gwariant £233,291

- 32% Datrys tlodi
- 24% Prosiectau eraill
- 15% Codi arian
- 13% Mudo
- 13% Cydraddoldeb
- 3% Gwytnwch economaidd



Ffigyrau pwysig

- Dygodd Sefydliad Bevan **£56,250** o gronfeydd cyfyngedig ymlaen o **2017/18** i **2018/19**.
- Cafodd **£114,434** o incwm cyfyngedig Sefydliad Bevan ei ddwyn ymlaen o **2018/19** i **2019/20** ar gyfer weithgareddau i'w cyflawni yn **2019/20**.
- Roedd ein hincwm ddigyfyngiad yn llai na'r gwariant, felly defnyddiwyd **£31,988** o'r arian wrth gefn.
- Ar **31ain Mawrth 2019** roedd ein cronfa arian ddigyfyngiad wrth gefn yn **£45,330**.

Diolchiadau

Mae Sefydliad Bevan Foundation yn hynod ddiolchgar i'r canlynol sydd wedi cyfrannu dros £5000 tuag at eu gwaith:

Sefydliad Joseph Rowntree
Sefydliad Paul Hamlyn Foundation
Ymddiredolaeth Carnegie UK Trust
Age Alliance Wales
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Prifysgolion Cymru
TUC Cymru

Ymddiriedolwyr

Vivienne Sugar Cadeirydd
Rachal Minchinton Is-gadeirydd
(Ymddiswyddo Gorff 2019)
Duncan Forbes Ysgrifennydd
Mark Hooper Trysorydd
Sandy Blair
Michael Imperato

Caroline Lewis
Sally Power
Lynne Hughes
Tegid Roberts
William Powell
Anthony Hunt
Tamsin Stirling (o Ion. Jan 2019)

Staff

Victoria Winckler Cyfarwyddyd
Helen Cunningham Swyddog Polisi ac Ymchwil (o fis Mawrth)
Steffan Evans Swyddog Polisi ac Ymchwil
Rachael Simmonds Swyddog Cyllid a Gweinyddiaeth
Lucy Stone Swyddog Polisi ac Ymchwil (hyd fis Mawrth 2019)
Claire Thomas (o fis Gorff 2019)

Manylion cyswllt

SEFYDLIAD
bevan
FOUNDATION

Sefydliad Bevan
145a Stryd Fawr/High Street,
Merthyr Tudful CF47 8DP

Ffôn. 01685 350 938

Info@bevanfoundation.org

www.bevanfoundation.org

[Twitter](https://twitter.com/bevanfoundation) [Facebook](https://www.facebook.com/bevanfoundation) bevanfoundation

Dileu tlodi ac anghydraddoldeb yng Nghymru

Pwy ydyn ni

Ni ydy melin drafod fwyaf dylanwadol ac arloesol Cymru.

Yr hyn a wnawn

Rydyn ni'n gweithio i ddileu tlodi ac anghydraddoldeb.

Gwnawn hyn drwy gynyddu dealltwriaeth, canfod datrysiadau ac ysbrydoli llywodraethau, sefydliadau a chymunedau i weithredu.

Rydyn ni'n newid yr hyn mae pobl yn ei feddwl, ei ddweud a'i wneud. Rydyn ni'n gwella bywydau pobl, nawr ac i'r dyfodol.

How you can get involved



Cyfrannu

Anfon rhoddion rheolaidd i gefnogi ein gwaith a chael hefyd fanteision gwych!

www.bevanfoundation.org/support-us/individuals/



Tanysgrifio

Cymrwch danysgrifiad cyffredin a chael manteision ecslwsif – neu dewch yn bartner a chreu mwy o effaith.

www.bevanfoundation.org/supportus/organisations/



Rhodd yn eich ewyllys

Gadael rhodd i'r dyfodol drwy gofio am Sefydliad Bevan yn eich ewyllys:

www.bevanfoundation.org/support-us/giftin-your-will/

Beth ddwedon nhw

"Rwy'n falch i weld bod Sefydliad Bevan yn mynd ati i ddeall a datrys gwraidd tlodi yng Nghymru mewn modd mor drwyadl."

Yr Arglwydd Bird, sylfaenydd y Big Issue, Big Issue, 19eg Ebrill 2018

"Rwy'n cytuno â Sefydliad Bevan... Yn amlwg, rydym angen y lefel honno o ddealltwriaeth o effeithiau tlodi ar bobl os ydym am ei drechu mewn ffordd fwy cyfannol." Alun Davies AC, Ysgrifennydd Cabinet dros Wasanaethau Cyhoeddus, Cyfarfod Llawn y Cynulliad, 3ydd Hydref 2018

"A gaf fi fanteisio ar y cyfle hwn i ganmol yr adroddiad gan Sefydliad Bevan, y credaf ei bod yn ddogfen allweddol?"

David Melding AM, cyfarfod llawn y Cynulliad 17eg Hydref 2018

Beth wnaethon ni yn ystod 2018/19



Llunio'r agenda ar gyfer 2019

Fe wnaeth ein rhagolwg ar y dystiolaeth ar sut y gallai'r flwyddyn o'n blaenau ddatblygu ffurfio'r agenda polisi a gwleidyddiaeth yn ogystal â bod yn newyddion tudalen flaen.



Lliniaru Credyd Cynhwysol

Gwelsom fod Credyd Cynhwysol yn tansellio rhai polisiau a gwasanaethau datganoledig, ac fe wnaethom annog Llywodraeth Cymru i weithredu i'w hamddiffyn. Fe wnaethon ni gynnal seminar dylanwadol gyda Sefydliad Joseph Rowntree ar opsiynau ar gyfer datganoli'r budd a luniodd ganfyddiadau un o ymchwiliadau'r Cynulliad. Fel rhan o wythnos oedolion sy'n ddysgwyr fe wnaethon ni sgrinio'r ffilm 'I, Daniel Blake' i gynyddu dealltwriaeth.



Gwerthfawrogi ymfudo

Fe wnaethon ni ddatgelu pwysigrwydd mewnfudo i gynnal a chynyddu poblogaeth Cymru – heb hynny, bydd Cymru'n dirywio. Fe gynhalion ni symposiwm o arbenigwyr y DU ar newidiadau i bolisi ymfudo i gynyddu dealltwriaeth o'r problemau. Fe wnaethon ni ddadlau y dylai Llywodraeth Cymru geisio mwy o bwerau ynghylch pwy all fyw, gweithio ac astudio yng Nghymru.



Datrys tlodi ymhlith plant

Fe wnaethon ni ymgyrchu yn erbyn dileu grant gwisg ysgol – ac ennill. Wedi'i ariannu gan ein hapêl Nadolig, fe wnaethon ni ddarganfod bod plant yn mynd heb eu bwydo yn ystod gwyliau'r haf. Ysbrydolodd ein seminar arbenigol grwpiau cymunedol i weithredu ac ysgogodd hyn arian ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru.



Gwella Addysg Uwch

Gwnaethom alw am addysg uwch i wella ei rôl ar ôl Brexit. Wedi'i lansio gyda'r Prif Weinidog, gwnaethom alw am i sefydliadau AU fod yn:

- > Angor economaidd yn eu rhanbarth
- > Sefydliadau disglair o arbenigedd
- > Canolfannau dysgu hyblyg
- > Cyfartalwyr cymdeithasol



Hysbysu ac ysbrydoli

- > Fe wnaethon ni gynnal tri digwyddiad 'arwain meddyliau' yn cynnwys sylfaenydd Big Issue, Yr Arglwydd Bird, awdur 'The New Working Class', Claire Ainsley, a chyn newyddiadurwr y Guardian, Deborah Hargreaves.
- > Fe wnaethon ni lunio dadl am 'waith teg' mewn cynhadledd arbenigol a gynhaliwyd gyda Busnes yn y Gymuned.
- > Fe wnaethon ni groesawu dirprwyaeth o Ogledd Iwerddon i ddarganfod mwy am lesiant, gydag Ymddiriedolaeth Carnegie UK.



Fe wnaethon ni gwblhau:

- > Ein galwad am 'dwf cynhwysol' i yrru economi dinas-ranbarthau Cymru.
- > Ein hargymhellion ar gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc heb 5 TGAU.
- > Tri sesiwn frifio ar hawliau dynol gan yr arbenigwr blaenllaw Simon Hoffman.
- > Adroddiad ar ddull newydd o ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd.

Fe wnaethon ni wahaniaeth

Fe wnaethon ni ysbrydoli ac ysgogi gweithredu.

Wnaethon ni gynyddu dealltwriaeth:

- > 46 o erthyglau ar-lein, 10 sesiwn brifio a chyhoeddi 7 adroddiad.
- > Sylw yn y wasg yn y DU, yng Nghymru ac yn y cyfryngau arbenigol.
- > Dros 90,000 o ymweliadau â'r wefan a 11,000 o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol.
- > Mynychodd 600 o bobl ein cyfarfodydd.

Rydyn ni'n gosod yr agenda ar bolisi

- > Ysgogi trafodaeth am Gredyd Cynhwysol a datganoli budd-daliadau nawdd cymdeithasol.
- > Tanlinellu'r angen am weithredu i ddatrys tlodi plant.
- > Llunio'r naratif am fewnfudo i Gymru.
- > Cyflwyno twf cynhwysol i'r drafodaeth ar yr economi.

Wnaethon ni gryfhau democratiaeth

- > Cyngor arbenigol i dri o ymholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol.
- > Dyfynnwyd ni 50 o weithiau gan Aelodau'r Cynulliad o bob plaid ym musnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn Nhŷ'r Arglwyddi.
- > Wedi cyfrannu at sesiynau brifio.

Wnaethon ni ysbrydoli gweithredu

- > Ysbrydoli'r gymuned i weithredu i ddatrys problem 'diffyg bwyd' yn ystod y gwyliau ar draws Cymru.
- > Wedi adfer cymorth y Llywodraeth i deuluoedd isel eu hincwm gyda chost gwisg ysgol.
- > Wedi cymell darparwyr addysg bellach i adolygu eu polisiau ar godi ffoedd.

Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol

Yn 2019/20 byddwn yn parhau i weithio i gael atebion parhaol i dlodi ac anghydraddoldeb.

Byddwn yn gwrando ar y bobl sydd â phrofiad byw ac yn gweithio gyda nhw i ddatblygu ffyrdd ymarferol, gyda thystiolaeth o ddod ag anghyfiawnderau i ben.

Byddwn yn:

- ✔ Datblygu cynigion ar gyfer system Budd-daliadau Cymreig i ddarparu angor i bobl sydd wedi'u caethiwo mewn tlodi.
- ✔ Ysgogi gweithredu i adeiladu gwytnwch economaidd yng nghymoedd de Cymru i wrthsefyll heriau Brexit ac awtomeiddio, yn seiliedig ar ddefnyddio asedau cymunedol, datblygu busnesau cymdeithasol, harneisio caffael cyhoeddus ac archwilio offerynnau ariannol newydd.
- ✔ Meithrin dull newydd o gynnwys ymfudwyr rhyngwladol yn ein cymunedau i leihau tensiynau a chynyddu cydlyniant.

Byddwn yn parhau i fod yn annibynnol o'r llywodraeth neu ddiddordebau personol, a byddwn yn dryloyw ac yn gynhwysol ym mhopeth a wnawn.

Byddwn yn adolygu ein strategaeth ariannu yng ngoleuni'r heriau ariannol sylweddol yr ydym yn parhau i'w hwynebu, gan gydnabod haelioni ein cefnogwyr a cheisio ffynonellau incwm newydd.